Torri'r patrwm cylchdroi

Ymagwedd newydd at ddatblygu polisi ar hedfan yn y DU

Crynodeb gweithredol

20 ippr 1988–2008

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru

Crynodeb gweithredol

Mae diwydiant awyrennau y DU yn cyflwyno manteision amryfal – gan gynyddu twf economaidd a chyflogaeth, a chynyddu lles cymdeithasol drwy ehangu cyfleoedd, gwella cysylltiadau pellter hir, ehangu profiad, a thrwy gyfnewid diwylliannol. Fodd bynnag, mae costau'n gysylltiedig â'r manteision hyn – yn benodol allyriadau nwy tŷ gwydr, ac effeithiau negyddol ar y cymunedau o gwmpas cyfleusterau'r diwydiant awyrennau.

Mae rhagolygon ar gyfer cynnydd mawr yn y niferoedd o awyrennau, fel a amlinellwyd ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Awyr y DU 2003, wedi ysgogi trafodaeth fyw am gyfraniad y diwydiant awyrennau i ddatblygu cynaliadwy.

O ganlyniad, yn 2007 ac ar ddechrau 2008, er mwyn sicrhau bod ei gyngor i'r llywodraeth yn wybodus, cynhaliodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC), ynghyd â'r Sefydliad ar gyfer Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR), Asesiad Rhanddeiliaid ar y diwydiant awyrennau. Datgelodd hyn ystod o farn, gan fusnesau, cynrychiolwyr y diwydiant, llywodraethau, academia, grwpiau dinasyddion a Chyrff Anllywodraethol. Mae agweddau allweddol ar yr Asesiad hwn - methodoleg, partneriaid comisiynu a chrynodeb o drawsgrifiadau yn dilyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Gellir lawrlwytho trawsgrifiadau llawn yr Asesiad Rhanddeiliaid o wefan y SDC yn www.sd-commission.org.uk/pages/aviation.html.

Mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, er eu bod wedi'u hysbysu gan yr Asesiad Rhanddeiliaid y cyfeirir ato o hyn allan, yn cynrychioli barn SDC a IPPR. Fodd bynnag, rydym wedi ymgymryd ag ymgynghoriadau helaeth am ein hadroddiad ein hunain gyda chyfranogwyr yr Asesiad.

Yn ystod yr asesiad, clywsom am rwystredigaeth a dryswch am y diffyg data cytunedig a thryloywder yn y drafodaeth am ddiwydiant awyrennau y DU, a bod llawer o'r dystiolaeth sylfaenol y mae polisi cyfredol a pholisi'r dyfodol yn seiliedig arni yn cael ei herio.

Mae'r SDC ac IPPR yn credu nad yw'r gwrthdaro hwn yn fuddiol i'r llywodraeth, y cyhoedd, na'r diwydiant awyrennau. Mae'n tanseilio cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer y diwydiant awyrennau, yn achosi oedi o ran gwneud penderfyniadau, ac yn gwyro ymdrechion y llywodraeth a diwydiant i liniaru effeithiau amgylcheddol y diwydiant awyrennau.

Er hynny, cafodd yr Asesiad bod brwdfrydedd o fewn y diwydiant, grwpiau dinasyddion, academyddion a chyrff anllywodraethol dros ddeialog adeiladol barhaus, ac undod yn y dymuniad i weld polisïau trafnidiaeth awyr mwy cynaliadwy. Mae consensws am yr angen am wybodaeth gywir a diduedd, a phwysigrwydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae peth brwdfrydedd dros weithredu ar y cyd lle mae budd cyffredin, fel yn y potensial ar gyfer technoleg.

Rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn gweithredu er mwyn manteisio ar yr ewyllys da hwn. Dylai ddiweddaru ei pholisïau diwydiant awyrennau i adeiladu sgiliau a'r economi yn y DU, gosod targedau allyriadau a lleihau swn llym, a datblygu hinsawdd gyllidol deg ar gyfer y diwydiant awyrennau. Mae hyn yn gofyn am Gomisiwn Arbennig â'r gwaith o ymgymryd ag adolygiad annibynnol sylweddol o bolisi diwydiant awyrennau y DU ac ymrwymiad gan y Llywodraeth i adolygu'r Papur Gwyn Trafnidiaeth Awyr erbyn 2010/11, wedi'i hysbysu gan ganfyddiadau ac argymhellion y Comisiwn.

Credwn mai'r peth gorau o ran proses o'r fath yw ei gomisiynu ar y cyd gan grwp llywio o randdeiliaid cymysg o'r llywodraeth, busnes, cyrff anllywodraethol a grwpiau dinasyddion, a'i gynnull gan gadeirydd annibynnol dibynadwy. Dylai ddatblygu sylfaen dystiolaeth gytunedig gan ddefnyddio'r farn wyddonol ac arbenigol ddiweddaraf, a rhoi cychwyn ar ddeialog gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar ddyfodol y diwydiant awyrennau yn y DU.

Dylai'r Comisiwn Arbennig strwythuro ei waith o gwmpas y pum prif her a nodwyd yn yr Asesiad

Rhanddeiliaid, ac yng nghyd-destun egwyddorion datblygu cynaliadwy y llywodraeth ei hun, gan sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn tra'n byw o fewn terfynau amgylcheddol, gyda sylfaen o wyddoniaeth gadarn, llywodraethu da ac economi gynaliadwy.[1]



* Wedi ei ddiffinio yn strategaeth y llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy fel a ganlyn: gweithredu'n barhaus i hyrwyddo systemau cyfranogol o lywodraethu ar draws pob level o gymdeithas, gan gysylltu â chreadigrwydd, ynni ag amrywiaeth y boblogaeth.

I orffen, mae'r SDC a'r IPPR yn argymell y dylai'r Comisiwn Arbennig edrych ar gynnwys pedwar cam:

1 **Creu sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddaru ar agweddau allweddol manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a chostau diwydiant awyrennau y DU, gan geisio cael y consensws mwyaf posib ymysg rhanddeiliaid.**

2 **Ymgymryd â deialog gydgynghorol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar ddyfodol y diwydiant awyrennau yn y DU, gan nodi opsiynau polisi i ysgogi trafodaeth genedlaethol.**

3 **Cydlynu a chefnogi gweithredu ar unwaith mewn meysydd lle mae cytundeb cyffredinol yn bodoli ymysg rhanddeiliaid, fel ar drafnidiaeth integredig, arloesed technolegol, a theithiau busnes.**

4 **Gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer adolygu'r Papur Gwyn Trafnidiaeth Awyr a datblygu'r datganiad polisi cenedlaethol ar y diwydiant awyr, gan ddefnyddio'r data cytunedig a chanlyniadau'r ddeialog.**

1 www.sd-commission.org.uk/pages/principles.html

Mae gan y Ganolfan Sciencewise, sydd wedi'i lleoli yn yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau, y sgiliau angenrheidiol a byddai mewn sefyllfa dda i helpu i gynnal yr adolygiad hwn.

Dylai'r Comisiwn Arbennig ddechrau ar ei waith yn ystod hydref 2008 (er mwyn iddo weddu i amserlen arfaethedig adroddiad cynnydd y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth Awyr a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar y diwydiant awyrennau), a bod yn strategol, DU-gyfan, annibynnol a chael ei werthuso'n annibynnol.

Rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ymrwymo i adolygu'r Papur Gwyn Trafnidiaeth Awyr wedi'i hysbysu gan y Comisiwn Arbennig hwn a'i argymhellion.

Ehangu meysydd awyr

Yn ystod yr Asesiad Rhanddeiliaid ni thrafodwyd cynigion ehangu meysydd awyr penodol – yn cynnwys y rheiny yn Heathrow a Stansted. Teimlwyd bod y cynigion mor ddadleuol y byddent wedi tynnu sylw oddi wrth y drafodaeth ehangach ar ddiwydiant awyrennau y DU. Am yr un rheswm, **mae'r SDC a'r IPPR yn credu y dylai'r llywodraeth ystyried ehangu meysydd awyr ar raddfa fawr dim ond ar ôl iddynt dderbyn argymhellion gan y Comisiwn Arbennig ac adolygu dilynol y Papur Gwyn Trafnidiaeth Awyr.** Rydym yn cydnabod y pwysau ar gyfer gweithredu penodol, a'r paratoi o fewn y llywodraeth a diwydiant ar gyfer penderfyniadau buan. Ond tra bod y dystiolaeth sy'n hysbysu'r penderfyniadau hyn yn cael ei herio ar raddfa mor eang, a bod canlyniadau penderfyniadau gwleidyddol pwysig ar fynd i'r afael ag effeithiau'r diwydiant awyrennau ar yr hinsawdd yn ansicr, credwn fod y risgiau mewn perthynas â phenderfyniadau o blaid ehangu yn uwch na'r manteision posib.

Rhestr o dalfyriadau

ATWP	Y Papur Gwyn Trafnidiaeth Awyr
IPPR	Y Sefydliad ar gyfer Ymchwil Polisi Cyhoeddus
NGO	Cyrff Anllywodraethol
SDC	Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy